



Tynnu Llun



CAMAU DATBLYGU CYFFREDINOL

(Gall y plant bortreadu'r pwnc dan sylw o wahanol safbwyntiau gan gynnwys o'r awyr, o'r blaen, o'r ochr neu o'r cefn neu gyfuniad o'r rhain.)


DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH OEDOLION AC ADNODDAU

Mae'n gwneud dotiau a strociau.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.

Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, tywod gwlyb, brigau a mwd, paent a brwshys ac ati. Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



Mae'n sgriblan ar hap heb feddwl llawer/o gwbl am y canlyniad. (Sgriblan anhrefnus)

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.

Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, blawd, 'glŵp', hambyrddau reis, paent, tywod sych ac ati. Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



Mae'n dechrau dangos rheolaeth dros ei sgriblan. (Mae'n defnyddio pwysau priodol ac yn dechrau sylwi ar ffiniau'r arwynebedd. Mae'n rhoi mwy o sylw i'r canlyniad.)

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.


Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, paent, hambyrddau gliter ac ati. Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



Mae'n dangos rheolaeth dros ei sgriblan. (Mae'n tynnu lluniau cylchoedd a llinellau ac yn dechrau dangos ymwybyddiaeth o ofod.)

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.

Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, paent ac ati. Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



Mae'n dechrau enwi lluniau a rhoi ystyr iddynt. (Mae'n bosibl fod yr enw'n newid wrth ei drafod.)

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.

Ysgrifennu geiriau'r plant yn achlysurol.
Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, siarcol, ffyn graffit ac ati. Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



CAMAU DATBLYGU CYFFREDINOL

DISGRIFIAD O'R CAM

Mae'n enwi llun ac yn trafod ei waith yn fwy manwl.
(Mae'r enw'n aros yr un fath wrth ei drafod.)

Mae'n portreadu'r pwnc dan sylw mewn modd datgymalog.

Mae'n portreadu'r pwnc dan sylw mewn modd cysylltiedig.


Mae'n dangos y gall ddefnyddio tryloywder.
(Mae elfennau o'r llun yn haenog e.e. tynnu llun corff ac yna'r dillad ar ei ben.)

Mae'n dangos y gall ddefnyddio achludiad.
(Mae'n llwyddo i dynnu lluniau elfennau o'r llun y tu ôl i'w gilydd neu o flaen ei gilydd.)

CYMORTH OEDOLION AC ADNODDAU

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.
Ysgrifennu geiriau'r plant yn achlysurol.


Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, siarcol, ffyn graffit ac ati.
Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.




Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.
Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, siarcol, ffyn graffit, bwrdd gwyn rhyngweithiol ac ati.
Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.
Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, siarcol, ffyn graffit, bwrdd gwyn rhyngweithiol ac ati.
Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.
Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, siarcol, ffyn graffit, bwrdd gwyn rhyngweithiol ac ati.
Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.
Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, siarcol, ffyn graffit, bwrdd gwyn rhyngweithiol ac ati.
Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



CAMAU DATBLYGU CYFFREDINOL

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH OEDOLION AC ADNODDAU

Mae'n defnyddio cyfrannedd i gyfleu gwahanol feintiau.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.


Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, paent ac ati. Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



Mae'n defnyddio safbwyntiau i ddangos ymwybyddiaeth o bellter.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.

Adnoddau - Adnoddau amrywiol e.e. pinau ffelt, sialc, creonau, pensiliau, paent ac ati. Arwynebau o wahanol fathau a meintiau.



CAMAU DATBLYGU WRTH DYNNU LLUN FFIGYRAU

(Gofalwch fod y plant yn cael digon o gyfleoedd i sgriblan/tynnu llun cyn y camau hyn. Gweler y camau datblygu cyffredinol.)

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH OEDOLION AC ADNODDAU


Mae'n gwneud siâp cylch i gynrychioli ffigwr.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.
Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun.




Mae'n tynnu llun nodweddion y corff (a all fod yn ddatgymalog e.e. llygaid, clustiau ac ati).

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.
Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun.




Mae'n tynnu llun siâp cylch gyda llinellau cysylltiedig i gynrychioli coesau a breichiau (nid y nifer cywir o reidrwydd.)

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.
Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun.




Mae'n tynnu llun siâp cylch gyda'r nifer gywir o goesau a breichiau a chyda mwy o fanylder.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.
Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun.



Mae'n tynnu llun pen a chorff amlwg.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.
Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun.



CAMAU DATBLYGU WRTH DYNNU LLUN FFIGYRAU

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH OEDOLION AC ADNODDAU

Mae'n ychwanegu mwy o fanylder, e.e. ffroenau, amrantau, manylion dillad, careiau, gemwaith ac ati.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau. Cynnig cyfleoedd i dynnu lluniau byw e.e. eu ffrindiau/eu hunain.

Cynorthwyo'r plant i arsylwi'n fanwl.

Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun, drych.



Mae'n datblygu ymdeimlad o gyfrannedd ac yn arddangos hyn.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau. Tynnu sylw'r plant at linell ganol.

Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun, offer mesur safonol ac ansafonol.



Mae'n dangos nodweddion mwy soffistigedig e.e. tryloywder, achludiad, proffil.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd mewn ystod o ddarpariaethau.

Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun.



CAMAU DATBLYGU MEWN TECHNEGAU


(Gofalwch fod y plant wedi cael digon o gyfleoedd i sgriblan/tynnu lluniau cyn defnyddio'r technegau canlynol.)

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH OEDOLION AC ADNODDAU


Mae'n gosod darnau o liw ar hap ar ben gwaith sgriblan.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd i archwilio.
Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun




Mae'n rhoi cynnig ar lenwi rhannau o'i luniau ei hun, dechrau sylwi ar ffiniau.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd i archwilio. Annog y plant i wneud lluniau rhydd gwreiddiol.
Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun




Mae'n llenwi darnau o'i luniau ei hun yn fwy cywir.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd i archwilio. Tynnu sylw'r plant at eu manylder cynyddol.
Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, amrywiaeth o adnoddau tynnu llun



Mae'n archwilio'r marciau y mae gwahanol offer tynnu llun yn eu gwneud.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd i archwilio. Gofyn cwestiynau megis "Pa un sy'n gwneud y marc tywyllaf/goleuaf?/Allwch chi smwtsio'r marc?"
Adnoddau - Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead, pensiliau arlliwio (6B - 4H), siarcol, ffyn graffit/pensiliau, piniau ffelt a marcwyr, sialc.



Mae'n sylwi ar gysgodion a lle mae golau'n adlewyrchu ar wrthrych.

Oedolyn - Tynnu sylw'r plant at gysgodion. Chwarae gemau cysgodion. Tynnu sylw at ffynonellau golau a'r modd y maent yn adlewyrchu ar wahanol wrthrychau.
Adnoddau - Allan ar ddiwrnod heulog, pypedau, blychau golau, tortshis.



CAMAU DATBLYGU MEWN TECHNEGAU

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH OEDOLION AC ADNODDAU


Mae'n cyfleu goleuni a thywyllwch yn ei waith ei hun.

Oedolyn - Cynorthwyo'r plant i adnabod ffynonellau golau a chysgodion.
Adnoddau - pensiliau arlliwio, sialc gwyn/pasteli, siarcol.





Mae'n cyfleu goleuni a thywyllwch yn ei waith ei hun trwy ddefnyddio technegau arlliwio eraill e.e. croeslinellu, pwyntiliaeth, sgriblan.

Oedolyn - Arddangos technegau arlliwio. Darparu cyfleoedd i ymarfer.
Adnoddau - Pensiliau neu bensiliau llinellu main.



Mae'n dewis technegau a lliwiau priodol yn ei waith gwreiddiol ei hun.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd.
Adnoddau - Darparu'r holl adnoddau o gamau blaenorol.



CAMAU DATBLYGU WRTH DDEFNYDDIO OFFER

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH OEDOLION AC ADNODDAU

Mae'n defnyddio ei fysedd i wneud marciau ar hap.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd i archwilio.


Adnoddau - Dŵr a bwrdd sialc, tywod gwlyb/sych, glŵp, hambyrddau reis.



Mae'n archwilio offer tynnu llun talpiog confensiynol.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd i archwilio.

Adnoddau - Creonau, sialc a ffyn graffit tew. Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead.



Mae'n defnyddio adnoddau tynnu llun gyda gafael priodol.

Oedolyn - Arddangos ac annog gafaeliad priodol. Annog parch a defnydd cywir o adnoddau e.e. rhoi caeadau ar binâu ffelt i'w hatal rhag sychu a rhoi pensiliau'n ôl yn y daliwr gan fod plwm yn malu'n hawdd.


Adnoddau - Pensiliau 'hand hugger', pinâu ffelt, byrddau gwyn a marcwyr, sialc main a chreonau. Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead.



Mae'n defnyddio offer anghonfensiynol i wneud marciau ar hap.

Oedolyn - Darparu cyfleoedd i archwilio.

Adnoddau - Brigau mewn mwd, ffyn lolipop mewn tywod, gwellt, plu.



Mae'n defnyddio adnoddau tynnu llun meinach gyda gafael priodol.

Oedolyn - Dangos sut i ddefnyddio adnoddau tynnu llun arbenigol.

Tynnu llun ochr yn ochr â'r plant.
Adnoddau - Pensiliau arlliwio, siarcol, pinâu gel, sialc a phasteli olew, beiros, pensiliau llinellu main, 'sharpies', pinâu ffabrig a ffabrigau. Papur o wahanol faint, lliw, siâp a gwead.



CYMORTH I DYNNU LLUN - YN DEFNYDDIO SYMBYLIAD

Gwrthrych, arteffact neu syniad sy'n ffocws i waith celf yw symbyliad.

DISGRIFIAD O'R CAM

CYMORTH OEDOLION AC ADNODDAU


Mae'n tynnu llun gan ddefnyddio'r dychymyg.

Oedolyn - Rhoi cyfle i'r plant dynnu llun o'u dychymyg mewn amryw o ddarpariaethau.
Annog, canmol a gwerthfawrogi gwreiddioldeb.
Adnoddau - Adnoddau tynnu llun amrywiol.



Mae'n tynnu llun trwy arsylwi (bywyd llonydd).

Oedolyn - Annog y plant i arsylwi'n fanwl yna dewis offeryn tynnu llun priodol. Darparu symbyliad mwymwy cymhleth.
Adnoddau - Symbyliad e.e. darnau o ffrwyth, hoff deganau, adnoddau tynnu llun amrywiol.



Mae'n tynnu llun trwy arsylwi (bywyd).


Oedolyn - Annog y plant i arsylwi'n fanwl a chyfleu'r hyn y maent yn ei weld.
Adnoddau - Symbyliad e.e. wyneb, drych, adnoddau tynnu llun amrywiol.



Mae'n tynnu llun o'r cof e.e. teulu, lleoedd cyfarwydd, digwyddiadau arbennig.

D.S. Gall y plant fynegi eu profiadau a'u hemosiynau, boed yn bositif neu'n negyddol, trwy eu lluniau a dylid eu caniatáu a'u hannog i wneud hynny.

Oedolyn - Rhoi cyfle i'r plant dynnu llun o'r cof.
Cynorthwyo'r plant i ddwyn i gof.
Annog, canmol a gwerthfawrogi gwreiddioldeb.
Adnoddau - Adnoddau tynnu llun amrywiol.



CYMORTH I DYNNU LLUN - YN DEFNYDDIO SYMBYLIAD

DISGRIFIAD O'R CAM

Mae'n tynnu llun gan ddefnyddio'r dychymyg, ymateb i symbyliad penodol.

Mae'n trafod sut mae artistiaid eraill yn ymateb i wahanol symbyliadau.

Mae'n trafod, archwilio a thynnu llun mewn arddull artist neu ddarluniwr enwog.

D.S. Mae'n defnyddio'r dechneg heb gopïo'r llun.

Mae'n defnyddio llyfrau amrywiol fel symbyliad.

CYMORTH OEDOLION AC ADNODDAU

Oedolyn - Darparu symbyliad e.e. stori, cerdd, darn o gerddoriaeth, profiad neu gwestiwn. Gosod tasgau megis "Tynnwch lun o sut yr ydych yn teimlo pan ydych yn flin. Tynnwch lun o'r ffordd y gallai'r stori hon orffen."

Adnoddau - Adnoddau tynnu llun amrywiol, llyfrau stori a barddoniaeth, cerddoriaeth, symbyliadau eraill.


Oedolyn - Annog **trafodaeth** gan ganolbwyntio ar y modd y mae artistiaid eraill yn ymateb i symbyliad.

Adnoddau - Gwaith celf gan gynnwys portreadau, tirluniau, bywyd llonydd.


Oedolyn - Trafod y lluniau a rhoi cyfle i'r plant archwilio gwahanol dechnegau. (Gweler y daflen technegau.) Dewis symbyliad gwreiddiol ac annog y plant i greu eu lluniau eu hunain yn yr arddull hwnnw e.e. llun llinell, strip cartŵn, gwawdlun.

Adnoddau - Print o waith celf gwreiddiol, symbyliad, adnoddau tynnu llun amrywiol.

Oedolyn - Rhannu a mwynhau'r llyfr gyda'r plant a'u hannog i ymateb. **Adnoddau** - Ystod eang o lyfrau lluniau.



Llun gan Rodin



Llun gan Henry Moore



Arddangos

- Mae hunanhyder plant a'u hymdeimlad o les yn datblygu wrth weld eu gwaith yn cael ei arddangos.
- Os yn bosibl, gofalwch fod o leiaf un darn o waith pob plentyn yn cael ei arddangos yn yr ystafell waith. Bydd gwaith sy'n cael ei arddangos fel arfer yn orffenedig, ond bydd hefyd yn dangos cynnydd, gan roi ystyriaeth i wahanol gamau'r broses.
- Rhewch gyfle i'r plant arddangos eu gwaith eu hunain.
- Dylai'r gwaith gael ei fowntio'n ofalus ac yn feddylgar. Dylid ystyried lliwiau niwtral gan fod papur cefndir neu forderi prysur a lliwgar yn gallu tynnu'r llygad oddi ar y llun yn hytrach na'i gyfoethogi.
- Defnyddiwch bapur o'r ansawdd gorau y gallwch ei fforddio.
- Gyda phlant iau, gofynnwch am ganiatâd i ysgrifennu eu henwau ar y gwaith. Rhewch yr enw ar gornel chwith uchaf y llun. I blant hŷn, fel mewn oriel gelf, dylid gosod testun ar label neu ei osod o dan y llun ar yr ochr chwith.
- Lle bo hynny'n briodol, dangoswch beth ddywedodd y plant ochr yn ochr â'u gwaith.
- Lle bo hynny'n briodol, gadewch i'r blant gymryd rhan yn y gwaith o arddangos eu gwaith.
- Cyfeiriwch at waith sy'n cael ei arddangos i ddathlu, rhannu ac asesu gwaith y plant.

Cyngor ar sut i dynnu lluniau

- Wrth dynnu llun trwy arsylwi, dylech fod yn edrych mwy nac ydych yn tynnu llun.
- Wrth dynnu llun trwy arsylwi, ystyriwch ddefnyddio ffenestr i ynysu symbyliad gofynnol.
- Defnyddiwch bensil feddal i dynnu llun - B neu 2B.
- Defnyddiwch y pensil yn ysgafn i ddechrau.
- Wrth arlliwio, defnyddiwch rwbwr dros olion pensil ysgafn i greu effeithiau goleuni.
- Wrth arlliwio, defnyddiwch yr ystod cyfan o ddu i'r llwyd goleuaf a gwyn.
- Anogwch oedolion i weithio'n *hyderus* ochr yn ochr â'r plant i greu eu gwaith gwreiddiol eu hunain—dangos technegau ac ati.

Cofiwch

- Mae angen i blant gael profiad o wneud symudiadau echddygol bras a chwarae â'u bysedd cyn y gallant symud ymlaen i ddefnyddio offer gwneud marciau.
- Sgriblan yw cam cynharaf y broses o wneud marciau a dylid dathlu hynny.
- Gellir gwneud marciau gydag ystod eang o gyfryngau dan do ac yn yr awyr agored a dylid annog hyn.

‘Mewn gweithgareddau creadigol, ymchwiliol neu archwiliol, nid oes atebion cywir nac anghywir. Mae pob ymateb yn unigryw a dylid gwerthfawrogi pob un. (tudalen 6)

‘Mewn celf, crefft a dylunio mae’r plant yn dysgu sut i ddefnyddio eu holl synhwyrau, eu sgiliau arsylwi, eu cof, eu teimladau a’u dychymyg, yn ogystal â mynegi eu hymateb mewn creadigaethau dau a thri dimensiwn.’ (tudalen 14)

‘Dylid annog cyfuniad o sgiliau a thechnegau, er enghraifft, trwy wneud pypedau â rhannau symudol.’ (tudalen 15)

**Cymerwyd o Ddeunydd Cyfarwyddyd y Cyfnod Sylfaen -
Datblygiad Creadigol LICC.**